

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Amodau a Thelerau ar gyfer Archebion Prynu

Mae copi o'r Amodau yma ar gael mewn print bras ar gais.

Mae "Nwyddau" yn cynnwys defnyddiau. Mae "Gwerthwr" yn cynnwys cyflenwr / darparwr gwasanaeth / contractwr gweithiau. Bydd gan y geiriau "gwasanaethau a gweithiau" eu hystyr naturiol ehangaf ac i bwrpas yr Archeb yma, bydd cyfeiriad at wasanaethau'n cynnwys cyfeiriad at weithiau. Mae 'Archeb' yn golygu'r archeb a gyflwynir gan y Cyngor am y Nwyddau a'r Gwasanaethau perthnasol.

Nwyddau a Gwasanaethau

1. Yn amodol ar amod 9 isod, bydd **derbyniad yr Archeb hon gan y Gwerthwr yn arwydd ei fod/ei bod yn derbyn yr amodau a thelerau yma.**
2. Rhaid dyfynnu rhifau archeb ar yr holl ohebiaeth, anfonebau a nodiadau trosglwyddo.
3. Ni wneir unrhyw daliad am Nwyddau neu wasanaethau heblaw, ac nes, bydd y Nwyddau a/neu'r gwasanaethau wedi cael eu darparu yn unol â thelerau'r Archeb ac y darperir anfoneb. Os bydd yr Archeb yn nodi bod rhaid i'r anfoneb fynd i gyfeiriad arall heblaw'r cyfeiriad lle mae'r Nwyddau i gael eu cyflenwi neu lle mae'r gwasanaethau i gael eu gweithredu, ni wneir unrhyw daliad nes bydd yr anfoneb hon wedi cael ei derbyn yn y cyfeiriad cywir. Gwneir taliad o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfoneb gywir. Pan dderbynnir taliad gan y Cyngor, cyfrifoldeb y Gwerthwr yw hi i sicrhau bod taliad yn cael ei wneud yn amserol (e.e. o fewn 30 diwrnod neu lai) i unrhyw drydydd parti sy'n gysylltiedig â'r Gwerthwr mewn perthynas â chyflawni'r Archeb.
4. Rhaid cynghori a chytuno i unrhyw amrywiad hysbys yn y nifer neu yn yr ansawdd neu bris a nodir yn yr Archeb hon cyn i'r Nwyddau gael eu cyflenwi neu cyn i'r gwasanaethau gael eu gweithredu – neu fel arall ni wneir taliad.
5. Gwneir taliad i'r Gwerthwr sydd wedi'i h/enwi ar yr Archeb neu i enwebai'r Gwerthwr yma (e.e. ffactor) yn unig, a hynny drwy drefniant arbennig (bydd angen cytuno o flaen llaw i unrhyw drefniant arbennig).
6. Bydd y Gwerthwr yn defnyddio'r holl sgiliau, gofal a diwydrwydd sy'n ddyladwy wrth weithredu'r contract. Bydd yr holl Nwyddau a gyflenwir neu'r gwasanaethau a weithredir yn cydymffurfio gyda safon uchaf y Sefydliad Safonau Prydeinig (neu'r un Ewropeaidd cyfatebol) ar gyfer y math hwnnw o Nwydd neu wasanaeth heblaw naill ai (a) y cytunir ar safon is neu (b) mae'r Gwerthwr yn rhoi gwybod i'r Cyngor nad oes safon berthnasol o'r fath ac felly y bydd y Nwyddau a'r gwasanaethau'n cydymffurfio gyda'r 'safon orau yn y diwydiant' ac, yn y naill achos a'r llall, mae'r Cyngor yn cytuno i hyn yn ysgrifenedig cyn derbyn yr Archeb.
7. Ni fydd y Gwerthwr yn aseinio budd yr Archeb neu'r contract neu unrhyw ran ohono i unrhyw berson arall heb ganiatâd ysgrifenedig gan y Cyngor o flaen llaw ac, wrth gyflenwi'r gwasanaethau neu'r Nwyddau, ni fydd yn gwneud unrhyw beth i roi enw drwg i'r Cyngor.
8. Os yw'r Cyngor yn mynd i hepgor neu ddiwygio unrhyw un neu ragor o'r telerau yma, mae'n rhaid iddo gadarnhau hynny yn ysgrifenedig ac, os nad ydyw, ni fydd yn dod i rym ac ni fydd hepgoriad neu ddiwygiad ar un achlysur yn awgrymu y bydd y diwygiad neu'r hepgoriad yn digwydd neu wedi cael ei gytuno ar unrhyw achlysur arall.
9. **Ni fydd 'amodau a thelerau safonol' y Gwerthwr yn berthnasol i'r Archeb yma.** Y dogfennau a ganlyn yw'r cytundeb cyfan rhwng y Cyngor a'r Gwerthwr; bydd y telerau yma, unrhyw amodau'r tendr a gyhoeddir gan y Cyngor ac unrhyw delerau sydd wedi'u pennu neu y cyfeirir atynt gan y Cyngor ar wyneb yr Archeb ac, heblaw fel y mae'r frawddeg ddilynol yn ei ddarparu, ni roddir effaith i unrhyw derm arall neu delerau eraill p'un a ydynt yn llafar neu'n ysgrifenedig. Os bydd contract ysgrifenedig gwasanaethau, gweithiau neu Nwyddau penodol, sy'n ymwneud â'r gwasanaethau neu'r Nwyddau sy'n ffurfio pwnc yr Archeb wedi'i **baratoi gan y Cyngor, ei gymeradwyo gan wasanaethau cyfreithiol y Cyngor a'i lofnodi/selio gan lofnodwr awdurdodedig priodol y Cyngor**, yna telerau'r contract ysgrifenedig penodol yma fydd yn weithredol. Mae'r gwerthwyr yn gyfrifol am wirio pwy yn y Cyngor sydd â'r awdurdod priodol i lofnodi archebion / contractau.
10. Bydd y contract wedi'i lywio gan gyfraith Lloegr a Chymru (fel y mae'n berthnasol yng Nghymru) ac mae'r partïon yn ildio i awdurdod cyfyngol llysoedd Cymru a Lloegr.

Nwyddau

11. Bydd y Nwyddau i gyd yn cael eu cyflenwi, gyda'r cludiant wedi'i dalu, i'r lleoliad sydd wedi'i nodi ar wyneb yr Archeb, neu fel arall gallent gael eu gwrthod.
12. Bydd y Gwerthwr yn cael derbynneb am yr holl Nwyddau a gyflenwir ac yn rhoi copi i'r Cyngor pan ofynnir am un ac, os bydd yn methu gwneud hynny, ni fydd goblygiad i'r Cyngor dalu am y Nwyddau nes darperir tystiolaeth o gyflenwad.
13. Lle mae dyddiad a/neu amser cyflenwi wedi ei nodi ar yr Archeb, bydd yr amser a'r dyddiad cyflenwi'n hanfodol i'r contract. Os nad oes dyddiad cyflenwi wedi ei nodi ar yr Archeb, yr amser/dyddiad cyflenwi fydd 3.00pm ar y 14eg diwrnod yn dilyn dyddiad yr Archeb ac, os felly, bydd y dyddiad hwnnw'n rhan hanfodol o'r contract. Yn yr achos olaf hwn, os bydd y 14eg diwrnod yn ddiwrnod pan fo swyddfeydd y Cyngor ar gau, y dyddiad cyflenwi fydd y diwrnod dilynol pan fo swyddfeydd y Cyngor ar agor. Cyfrifoldeb y Gwerthwr yw hi i ganfod pryd mae swyddfeydd y Cyngor ar agor.

14. Bydd yr eiddo mewn Nwyddau a defnyddiau a gyflenwir mewn perthynas â'r Archeb hon yn trosglwyddo i'r Cyngor pan gânt eu darparu.

Ond, os gwneir taliad neu daliad rhannol gyda'r Archeb hon neu cyn cyflenwi, bydd yr eiddo yn y Nwyddau'n trosglwyddo i'r Cyngor ar yr amser pan wneir taliad o'r fath. Unwaith mae eiddo wedi trosglwyddo i'r Cyngor ni fydd gan y Gwerthwr yr hawlryw nag unrhyw hawliau eraill mewn perthynas â'r Nwyddau neu'r deunyddiau.

15. Ystyrir bod y prisiau a ddyfynnir gan y Gwerthwr yn cynnwys costau cyflenwi, pacio a dadlwytho, heblaw bod y Cyngor wedi cytuno'n wahanol ac wedi nodi hynny'n glir yn ysgrifenedig.

16. Lle mae'r Gwerthwr yn gofyn i baled o ddeunydd pacio gael ei ddychwelyd, bydd hyn wedi ei nodi'n glir ar y nodyn cyflenwi a'r anfoneb, neu fel arall bydd y Cyngor yn rhydd i'w aildddefnyddio neu gael gwared ohono fel y mae'n ei ystyried yn addas heb roi cyfrif i'r Gwerthwr.

17. Ni fydd unrhyw Nwyddau a gyflenwir nad ydynt yn cyfateb â'r disgrifiad sydd wedi'i roi yn yr Archeb yn cael eu tynnu o safle'r Cyngor gan y Gwerthwr ar draul y Gwerthwr o fewn 48 awr i'r cyflenwi, ac os bydd y Gwerthwr yn methu â gwneud hynny gallai'r Cyngor drefnu i ddychwelyd y Nwyddau ar draul y Gwerthwr. Os pennir nad yw'r Nwyddau'n cyfateb gyda'r disgrifiad yn y Gorchymyn pan geisir trosglwyddo'r Nwyddau, bydd y Nwyddau'n cael eu tynnu ar unwaith o safle'r Cyngor ar draul y Gwerthwr.

18. Bydd unrhyw golled, niwed i neu ddiffyg yn y Nwyddau nad yw wedi'i achosi gan y Cyngor yn cael ei gywiro gan y Gwerthwr ar draul y Gwerthwr o fewn 14 diwrnod i dderbyn hysbysiad ysgrifenedig am hyn gan y Cyngor.

19. Bydd unrhyw Nwyddau Peryglus wedi'u marcio'n glir gan y Gwerthwr i ddangos hynny gyda'r symbol perygl rhyngwladol ac enw'r deunydd yn y Saesneg. Bydd Nwyddau o'r fath hefyd yn cael eu pacio, eu labelu a'u cario yn unol â chyfraith y Deyrnas Unedig neu gytundebau a dderbynir yn rhyngwladol. Pan gyflenwir Nwyddau o'r fath, darperir gwybodaeth yn y Saesneg ynghylch trin, storio a defnyddio'r Nwyddau hyn yn gywir. Trwy hyn, mae'r Gwerthwr yn digolledu'r Cyngor yn erbyn unrhyw niwed, colled neu anaf a achosir i'r Cyngor neu unrhyw rai o'i weision neu asiantau os bydd y Gwerthwr yn methu cydymffurfio â'r term yma.

20. Ni fydd taliad neu randaliad am y Nwyddau gan y Cyngor yn arwydd o dderbyniad gan y Cyngor bod y Nwyddau o'r ansawdd, y disgrifiad neu'r nifer a archebwyd ac ni fydd taliad o'r fath yn effeithio ar hawl y Cyngor i wrthod Nwyddau o'r fath yn ddiweddarach.

Gwasanaethau

21. Bydd y Gwerthwr yn darparu'r holl lafur, Nwyddau, offer a theclynnau sy'n angenrheidiol i weithredu'r gwasanaeth.

22. Cyfrifoldeb y Gwerthwr yw hi i sicrhau cadarnhad mewn ysgrifen o'r cyfarwyddiadau a roddwyd ar lafar wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

23. Bydd y Gwerthwr yn darparu'r gwasanaeth yn ystod oriau gweithio arferol yn ystod y dydd.

24. Bydd diffygion, sy'n bodoli neu sy'n ymddangos o fewn 12 mis i ddyddiad cwblhau'r gwasanaeth yn cael eu cywiro gan y Gwerthwr ar draul y Gwerthwr.

25. Bydd y Gwerthwr yn cadw cofnodion cywir a digonol o'r gwasanaeth a weithredir, yn cynnwys yr amser, a chyflwynir y rhain i'r Cyngor ar ddiwedd pob wythnos y gweithredir y gwasanaeth neu bob yn gyfnod arall sydd wedi'i gytuno yn ysgrifenedig.

26. Pan ofynnir iddo/iddi, bydd y Gwerthwr yn darparu tystiolaeth o statws treth.

27. Bydd y gwerthwr yn cadw'r gweithle'n lân a thacclus a bydd yn tynnu Nwyddau gormodol neu wastraff oddi yno'n rheolaidd.

28. Ystyrir fod y prisiau a ddyfynnir gan y Gwerthwr yn cynnwys holl dreuliau teithio a chynhaliadau y Gwerthwr heblaw eu bod wedi cytuno'n wahanol.

29. Bydd y Gwerthwr yn dal yr holl yswiriannau perthnasol sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaethau.

Polisiau, Deddfwriaeth ac ati.

30. Bydd y Gwerthwr yn cydymffurfio gyda holl bolisiau cyhoeddedig y Cyngor, ac unrhyw reolau, codau ymarfer, gweithdrefnau a safonau pellach y mae'r Cyngor yn rhoi gwybod amdanynt i'r Gwerthwr.

31. Bydd y Gwerthwr yn cydymffurfio gyda'r holl rannau perthnasol o'r ddeddfwriaeth lechyd a Diogelwch ac unrhyw ganllawiau eraill sydd wedi'u nodi gan y Cyngor.

32. Bydd y Gwerthwr yn sicrhau ei fod/bod yn cydymffurfio gyda holl ofynion perthnasol yr holl ddeddfwriaeth Cydraddoldeb gyfredol a bydd yn darparu unrhyw dystiolaeth o'r fath o hyn fel y bo'n ofynnol gan y Cyngor.

33. Bydd y Gwerthwr yn cydnabod bod yn rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â deddfwriaeth megis y Ddeddfwriaeth Diogelu Data, yn cynnwys Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ((UE) 2016/679), Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, ac ati. Bydd y Gwerthwr yn sicrhau nad yw ei g/weithredoedd yn achosi i'r Cyngor dorri unrhyw rai o'i oblygiadau a bydd yn darparu'r holl gymorth y gofynnir amdano gan y Cyngor i ganiatáu iddynt gyflawni eu goblygiadau.

Terfyniad

34. Os bydd y Gwerthwr yn torri unrhyw rai o'i oblygiadau o dan yr amodau a thelerau yma, yna bydd gan y Cyngor yr hawl i derfynu'r contract ar unwaith.

Aseiniad

35. Ni fydd y gwerthwr yn aseinio neu'n amnewid y cytundeb yma nac yn cael gwared ohono mewn unrhyw ffordd arall heb ganiatâd clir y Cyngor a fydd yn gweithredu'n gyfan gwbl yn ôl ei ddisgresiwn ei hun.

Cyfrinachedd

36. Mae'r Cyflenwr yn cydnabod bod unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol a geir gan, neu sy'n ymwneud â'r Cyngor, ei weision neu ei asiantau, yn eiddo i'r Cyngor ac y byddent yn cael eu trin yn gyfrinachol ac yn cael eu diogelu'n unol â hynny. Gallai'r Cyngor ddatgelu Gwybodaeth Gyfrinachol y Cyflenwr i unrhyw adran o'r llywodraeth, Awdurdod Contractio arall, ymgynghorydd neu fel y bo'n ofynnol o dan Ddeddf Archwilio Cenedlaethol 1983. Bydd y Cyngor yn defnyddio pob ymdrech resymol i sicrhau bod unrhyw adran o'r llywodraeth, Awdurdod Contractio, cyflogai, trydydd parti neu Is-gontractwr y rhoddir Gwybodaeth Gyfrinachol y Cyflenwr iddo yn unol â'r Cymal yma'n cael eu hysbysu am oblygiadau cyfrinachedd y Cyngor.